OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2325 (Cy.242)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*20 Medi 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Medi 2011*
Yn dod i rym - -	*14 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 14 Hydref 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ar ôl y diffiniad o "cyfnod allweddol" yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder —

> "ystyr "cylchlythyr iaith gyntaf" ("*first language circular*") yw'r cylchlythyr "Casglu a chofnodi data am iaith gyntaf disgyblion"(**4**) a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan y rhif cylchlythyr 001/2011;";

(b) ar ôl y diffiniad o "blwyddyn ysgol" mewnosoder—

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44) ac fe'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraff 153 a diwygiwyd is-adran 1(a)(i) ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) S.I. 2007/3562 (Cy.312).

(**4**) Rhif ISBN 978 0 7504 5907 5.